



Pa goed y gallwn ni ddod o hyd iddynt?



Bwriad Dysgu

- Adnabod y gwahanol fathau o goed mewn coetir.
- Astudio coed yn fanwl – dail, boncyff a ffrwyth.
- Deall bod coed yn gartrefi i amrywiaeth o greaduriaid.

Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Gwyddoniaeth - Cyfathrebu'n glir drwy ddefnyddio'r eirfa wyddonol berthnasol.

Drwy waith maes, dylent gael y cyfle i astudio'r planhigion a'r anifeiliaid mewn dau amgylchedd lleol cyferbyniol.

TGCh - Defnyddio TGCh i hyrwyddo'u dealltwriaeth o wybodaeth y maent wedi'i hadalw a'i chasglu.

ADCDF - Yr amgylchedd naturiol.

Amlinelliad o'r Gweithgaredd

- * Plant i ymweld â choetir cyfagos.
- * Defnyddio gwyntyll coed i adnabod mathau gwahanol o goed.
- * Nodi nodweddion allweddol coed penodol.
- * Edrych am dystiolaeth o weithgarwch creaduriaid yn y goeden ac o'i chwmpas.


Adnoddau

Gwyntyll Coed

(Mae llawer o adnoddau gwyh i'w defnyddio yn www.naturedetectives.org.uk! Gallwch hyd yn oed greu eich taflen 'hela' eich hun ar y wefan!)

Ardal goedwig

Camera digidol



Sawl gwahanol fath o goeden sydd yn y goedwig?

Amlinelliad o'r Wers

- Ymweld â choetir cyfagos - atgoffa'r plant o gôd cefn gwlad!!
- Dweud wrth y plant eu bod yn mynd i fod yn 'dditectifs coed'.
- Defnyddio'r gwyntyll coed i amlygu nodweddion i chwilio amdanynt.
- Eu hysbysu bod coed sy'n frodorol i Gymru/Prydain, yn ogystal â choed nad ydynt o'r wlad hon e.e. y Sycamorwydden.
- Mewn grwpiau, casglu cymaint o wybodaeth â phosib am goed - dail sydd wedi syrthio, rhwbiadau rhisgl, casinau/plisg hadau, ffotograffau.
- Edrych am dystiolaeth o rywogaethau eraill yn tyfu ar y coed e.e. cen coed, ffyngau a mwsoglau.
- Nodi unrhyw ardal lle mae coed wedi'u torri neu eu clirio. Esbonio bod rhai o'r coed yn cael eu torri am resymau diogelwch (afiechyd, oedran, difrod storm), tra bod eraill yn cael eu 'clirio' i wneud lle i dyfiant newydd, neu adeiladu.

Pa goed sy'n frodorol i
Brydain?

A yw'r coed hyn yn
iach?

Pam fod rhai coed
wedi'u torri?

Pa greaduriaid sy'n
byw yn y coed hyn?